

**RHAGLEN**

**DATGAN BUDDIANNAU**

Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**D.S. Cyfeiriwyd eitemau 4-7 ar y Rhaglen gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i'w hystyried. Dylai'r Aelodau ddod â'r papurau perthnasol a ddosbarthwyd ar gyfer y cyfarfod hwnnw gyda nhw.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

Cyngor Arbennig	-	6ed Ionawr 2017	-	Rhifau Cofnod 102-105
Cyfarfod y Cyngor	-	18fed Ionawr 2017	-	Rhifau Cofnod 106-120
Pwyllgor Cynllunio	-	18fed Ionawr 2017	-	Rhifau Cofnod 46-48
Pwyllgor Cynllunio	-	1af Chwefror 2017	-	Rhifau Cofnod 49-51

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol	-	1af Chwefror 2017	-	Rhifau Cofnod 97-112
---	---	-------------------	---	----------------------

**3. DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ADRAN 86 – DATGAN SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED AR GYFER WARD CEFNDY**

Cydnabod yn ffurfiol y swydd wag ar gyfer Cyngorydd Tref yn Ward Cefndy.

**4. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – RHAGFYR 2016**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

**5. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN RHAGFYR 2016 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2016/17**

Derbyn a chydnabod cyd-adroddiad cynnydd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb.

**6. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIAD HYD AT 31AIN RHAGFYR 2016**

Derbyn adroddiad cynnydd ar fuddsoddiadau'r Cyngor (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

**7. GOHEBIAETH: CYFOETH ADNODDAU CYMRU – WARDENIAID LLIFOGYDD**

Ymhellach i gofnod rhif 76 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Rhagfyr 2016, derbyn ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i bryderon ynglŷn â Wardeniaid Llifogydd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

**8. ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeedig).

**9. ETHOLIADAU 2017 – TREFNIADAU GWEINYDDOL**

Ystyried adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig) yn ymwneud â threfniadau ar gyfer y Cyngor Tref mewn perthynas â'r Etholiadau i ddod.

**10. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**11. HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

**12. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**13. COFNODION**

Derbyn er gwybodaeth gofnodion cyfrinachol (copïau'n amgaeedig) o'r cyfarfodydd canlynol:

Is-bwyllgor - 19eg Rhagfyr 2016 - Rhifau Cofnod 28-31  
Cynnal a Chadw Thiroedd

**14. CYNGOR SIR DDINBYCH – DATBLYGIAD ARFAETHEDIG AR Y PROMENAD**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 1af Chwefror 2017, derbyn adroddiad cynnydd llafar gan Glerc y Dref.

**15. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (manyion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

## 16. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.